


Ail Gynllun Datblygu
Lleol Newydd Bwrdeistref
Sirol Caerffili 2020-2035

# EB9 Cofrestr Safleoedd Posibl

***Tachwedd 2024***

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

This document is available in English,
and in other languages and formats on request.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg, ac
mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd

# EB9 Cofrestr Safleoedd Posibl

# Tachwedd 2024

## Cyflwynia

Fel rhan o broses yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd, gwahoddodd y Cyngor bartïon â diddordeb (datblygwyr a thirfeddianwyr) i nodi safleoedd posibl i'w cynnwys fel dyraniadau yn y cynllun. Enw'r broses hon yw Galwad am Safleoedd Ymgeisiol.

Cafodd y ffurflenni cyflwyno safle ymgeisiol, nodiadau canllaw ar gyfer safleoedd ymgeisiol a phapur methodoleg safleoedd ymgeisiol eu cyhoeddi ym mis Ionawr 2021.

Digwyddodd yr alwad ffurfiol gyntaf am safleoedd ymgeisiol rhwng **1 Gorffennaf 2021** a **31 Awst 2021**.

Digwyddodd yr ail alwad ffurfiol am safleoedd ymgeisiol rhwng **19 Hydref 2022** a **30 Tachwedd 2022**.

Cafodd cyfanswm o 173 o safleoedd eu cyflwyno yn ystod y cyfnod hwn ar gyfer defnydd amrywiol gan gynnwys tai, cyflogaeth, addysg, twristiaeth, ynni adnewyddadwy a diwygiadau i ffin yr anheddiad.

Cafodd y Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol hon ei chyhoeddi er gwybodaeth yn unig, ac nid yw'n ddogfen ymgynghori gyhoeddus. Pwrpas y Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol yw nodi pa dir a allai fod ar gael i'w gynnwys yn yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd, er nad yw cyflwyno Safle Ymgeisiol yn golygu bod y Cyngor yn ymrwymo i fynd â'r safle ymlaen i'r Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd.

Mae'r Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol yn cynnwys gwybodaeth am enw'r safle, lleoliad, cyfeirnod a maint y safle yn ogystal â'r defnydd presennol ac arfaethedig, ynghyd â chynllun sy'n dangos ffiniau'r safle.

At ddibenion cyfeirio, mae'r safleoedd wedi'u categoreiddio yn un o bum ardal Uwchgynllun fel a ganlyn:

Basn Caerffili (CB)

Coed Duon Mwyaf (GB)

Blaenau'r Cymoedd (HOV)

Cymoedd Islwyn Isaf a Sirhywi (RNC)

Ystrad Mynach (YM)

Bydd pob safle ar y gofrestr hon yn destun proses asesu lem, yn unol â'r Fethodoleg Safleoedd Ymgeisiol.

Bydd yr asesiad cychwynnol o safeoedd ar gyfer pob safle yn cael ei gyhoeddi fel rhan o ymgynghoriad y Strategaeth a Ffefrir a dyma gyfle i bartïon â diddordeb wneud sylwadau safle-benodol. Mae disgwyl i'r ymgynghoriad ynghylch yStrategaeth a Ffefrir gael ei gynnal yn Ionawr 2025, yn unol â'r Cytundeb Cyflenwi. Ni fydd unrhyw sylwadau sy'n dod i law y tu allan i'r ymgynghoriad ffurfiol ynghylch y Strategaeth a Ffefrir yn cael eu hystyried.

Bydd yr ymgynghoriad ynghylch y Strategaeth a Ffefrir hefyd yn gyfle i hyrwyddwyr safleoedd nodi unrhyw safleoedd newydd na chawson nhw eu cyflwyno fel rhan o'r alwad ffurfiol am safleoedd.

Mae rhagor o wybodaeth am sut i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am baratoi'r cynllun ar gael yn:

www.caerffili.gov.uk/Business/Planning-and-building-control-for-business/Local-Development-Plan/2nd-Replacement-LDP-up-to-2035/Register-your-interest?lang=cy-gb